**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 16 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 1.30 – 4.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn bresennol:** | |
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox: Pennaeth MRCS |
| | Lynsey Hazzard: Dirprwy Glerc |

**1.30pm-1.35pm**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Delyth Evans a Glyn Davies. Roedd Lorraine Barrett wedi anfon ei hymddiheuriadau hefyd ond fe welodd wedyn ei bod yn gallu dod.

   1.3 Gwnaeth y Cadeirydd atgoffa'r Aelodau am yr angen arnynt yn ôl Rheol Sefydlog 4.5 i ddatgan buddiannau.

**1.35pm i 2.30pm**

**Eitem 2: Adolygiad o'r Polisi Chwaraeon: Swyddfa'r Cabinet**

**CC 01-03(p.1)**

**Cyflwyniad gan: Simon Cooper, Swyddfa'r Cabinet / DCMS**

1. Roedd y cyflwyniad wedi'i seilio ar adroddiad y DCMS/uned y Strategaeth: "Game Plan" a oedd yn ymdrin yn bennaf â chwaraeon yn Lloegr. Gweler Atodiad A am gopi o'r cyflwyniad. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Amcan yr adolygiad oedd creu fframwaith ar gyfer datblygu chwaraeon, edrych ar y trefniadau ariannu a datblygu trefn newydd ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr. Argymhellodd yr adroddiad y dylai fod gan strategaeth chwaraeon ddau amcan:

i. Cael mwy o bobl i gymryd rhan
ii. Gwella perfformiad athletwyr mewn cystadlaethau rhyngwladol, yn enwedig yn y campau poblogaidd.

- Cododd 5 pwynt allweddol o'r adolygiad:

i. Mae angen gwneud mwy i gael mwy i gymryd rhan. Y manteision iechyd sy'n cael y sylw mwyaf wrth geisio denu mwy i gymryd rhan am fod mwy o brawf ohonynt. Roedd y tîm wedi amcangyfrif bod segurdod corfforol yn costio bron i £2 biliwn y flwyddyn o ran gofal iechyd yn Lloegr. Byddai codi lefelau cymryd rhan 10% yn golygu gostyngiad o £500 miliwn y flwyddyn yn y costau hynny. Daw mwy o fanteision o annog y cwbl segur i wneud ychydig o ymarfer corff nag o annog y rheini sydd eisoes yn gwneud peth i wneud mwy. Mae angen mwy o dystiolaeth i brofi'r manteision o ran lleihau troseddu, addysg a chynhwysiant cymdeithasol, gan fod ffactorau eraill i'w hystyried hefyd. I gael mwy o bobl i gymryd rhan, casgliad yr adroddiad oedd bod yn rhaid mynd i'r afael â phroblemau â'r cyflenwad, megis cyfleusterau a datblygu staff, a hefyd â'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan, megis incwm, amser a chymhelliant.
ii. Mae angen mwy o help ar yr athletwyr elite gorau er mwyn pontio "bylchau talent" ac i adnabod talentau ifainc yn gynt. Does gan y DU ddim trefn systematig i chwilio am dalentau, na chwaith lwybr hwylus i athletwyr ifainc ei ddilyn i fynd o gystadlu ar lefel ysgol i gystadlu ar lefel uwch. Mae gwaith i'w wneud i gau'r bylchau yn y llwybr hwnnw. Cynigir y dylai'r campau sy'n cael eu hariannu gan UK Sport a'r cynghorau chwaraeon datganoledig, gael eu hariannu yn dyfodol gan y naill neu'r llall. Mater i'r corff llywodraethu fydd penderfynu pa un - p'un ai'r ffynhonnell Brydenig neu'r cyngor

datganoledig. Byddai'n rhaid i'r Cabinet Chwaraeon gadarnhau'r penderfyniad hwnnw.

iii. Rhaid wrth gynllunio strategol tymor hir i gystadlu am gael cynnal "digwyddiadau mawr y byd" fel Gêmau'r Gymanwlad, yr Olympics neu Gwpan Pêl-droed y Byd. Mae digwyddiadau o'r fath, fel ag y mae llwyddiant ein hathletwyr elite, yn 'codi calon' y wlad a'i phobl. Mae manteision economaidd o gynnal digwyddiadau o'r fath hefyd.

iv. Mae angen mynd i'r afael â sgiliau staff y cynghorau chwaraeon, y llywodraeth a chyrff llywodraethu'r campau mewn ffordd mwy proffesiynol. Mae angen cryfhau rôl y Cabinet Chwaraeon er mwyn cydlynnu chwaraeon yn y DU yn well.

1. Yna cafwyd sesiwn holi ac ateb lle cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud:

- Pe bai trefn ariannu ganolog yn cael ei mabwysiadu, roedd pryder y gallai Cymru golli allan. Os byddai disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu arian, yna byddai rhaid iddi fod yn rhan o'r penderfyniadau. O ran arian y loteri i chwaraeon, mae Cymru tan anfantais am fod ei phoblogaeth yn llai. Mae angen newid sylfaenol i'r amodau ariannu.
- Gêmau tîm i ddynion yw'r deg camp mwyaf "poblogaidd" gan fwyaf. O beidio â chefnogi'r holl gampau y mae'r DU yn llwyddo ynddynt, mae perygl i fenywod a chystadleuwyr unigol golli allan. Mae dynion 20% yn fwy tebygol o gymryd rhan na menywod a dylid targedu rhai grwpiau er mwyn codi eu lefelau cymryd rhan.
- Mater datganoledig yw cynnal digwyddiadau mawr y byd. Penderfyniad y wlad unigol fydd cystadlu am gael eu cynnal a phenderfynu sut i'w hariannu. Diben yr argymhellion yn yr adroddiad oedd mynd i'r afael â rhai o'r problemau sydd wedi codi yn y gorffennol gyda chynnal digwyddiadau mawr.
- Ar y cyfan, nid oedd y rheini yr ymgynghorwyd â nhw'n cefnogi rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer chwaraeon. Yn y cyd-destun hwn, argymhellodd yr adroddiad dargedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA); defnyddio mwy o bartneriaethau sirol gyda Sport England; a mwy o gydweithio o fewn Whitehall.
- O ran ariannu, esboniwyd bod £2 biliwn yn cael ei neilltuo i chwaraeon dros y 3 blynedd nesaf. Er hynny, rhaid gwella'r strwythur presennol cyn neilltuo rhagor o arian. Roedd aelodau'n awyddus i weld arian y loteri'n cael ei rannu'n decach ar draws y DU. Nodwyd bod arian y loteri yn awr yn destun adolygiad. Roedd yna bryder hefyd ei bod yn anos denu nawdd y sector preifat yng Nghymru nag yn Lloegr, ac efallai bod yr angen i gael arian cyfatebol yn rhoi'r campau llai tan anfantais.

2.3 Yna gwnaeth y Gweinidog y sylwadau canlynol:

- Roedd Cymru, o ran ei phoblogaeth, yn cael mwy o ddigwyddiadau mawr i bob pen o'r boblogaeth na gweddill gwledydd Prydain.
- Roedd y DCMS/Swyddfa'r Cabinet wedi cymryd pryderon Llywodraeth y Cynulliad i ystyriaeth wrth baratoi "Game Plan".
- O ran digwyddiadau mawr y byd, i fod yn realistig, Gêmau'r Gymanwlad yw'r unig un y gallai Cymru ymgeisio amdano. Pe bai Cymru'n gwneud cais, teimlwyd y dylai gael yr un faint o gymhorthdal ag y cafodd Manceinion ar gyfer 2002.
- Byddai'n ddefnyddiol i'r Cynulliad pe bai'r wybodaeth ymchwil a fu'n sail i'r argymhellion ar gael iddo.

<u>Eitem 3: Adolygiad o'r Polisi Chwaraeon - Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon i'r Anabl (FSAD)</u>

CC-01-03 (p2)

Cyflwyniad gan: Jon Morgan, FSAD. Gweler Atodiad B am gopi o'r cyflwyniad.

3.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ffurfiwyd FSAD yn y 1980au gan ddod ag amrywiaeth o grwpiau pobl anabl ynghyd. Mae cynrychiolwyr o Gyngor Chwaraeon Cymru (CChC) ac awdurdodau lleol yn aelodau o'r FSAD. Prif rôl FSAD yw datblygu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon, ar lefel y gymuned ac ar lefel cystadlu uwch. Mae cynllun interim 2 flynedd "Moving Forward" wedi'i baratoi i fonitro gwaith yr FSAD a gweld sut y gall wella. Yr amcan oedd agor "llwybr clir" i bobl allu cymryd rhan ac osgoi'r cymlethdodau presennol o ran cael at gyfleusterau a chyllid. Mae FSAD yn cefnogi'r campau blaenoriaeth yn ogystal â champau eraill fel rygbi, tenis a phêl-fasged mewn cadeiriau olwyn. Mae llawer o athletwyr wedi cystadlu dros Gymru a Phrydain.
- Partneriaeth oedd Chwaraeon Anabledd Cymru (DSC) rhwng FSAD, CChC ac awdurdodau lleol. Ei amcan oedd rhoi cyfleoedd hamddena cymunedol ledled Cymru. Mae yna rwydwaith o 22 o swyddogion, 8 ohonynt yn amser llawn, yn gweithio i awdurdodau lleol Cymru i gyflawni'r amcanion.

3.2 Yr isod yw'r ffactorau a restrwyd oedd yn rhwystro pobl anabl rhag cymryd rhan. Rhestrir hefyd y camau y gellid eu cymryd i'w trechu:

- Mae hyfforddiant i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr a'u cynaliadwyedd yn destunau gofid. Dylid trefnu hyfforddiant carlam i hyfforddwyr. Mae FSAD wedi derbyn £50,000 oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd i ddenu mwy o wirfoddolwyr a chreu rhaglen gymorth i wirfoddolwyr.
- Trafnidiaeth - mae FSAD yn gobeithio gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i gael defnyddio cerbydau addas ar ôl oriau gwaith.
- Hyfforddiant - Mae angen rhoi mwy o hyfforddiant i staff canolfannau hamdden er mwyn cwrdd ag anghenion pobl anabl. Awgrymwyd y dylid rhoi consesiynau i grwpiau pobl anabl gan fod cyfran uchel yn derbyn budd-daliadau.
- Cyfleusterau - mae'n bosibl gwella cyfleusterau heb fawr o gost i'w gwneud yn fwy addas i bobl anabl, yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Addysg - dylai plant anabl mewn ysgolion y prif-ffrwd gael yr un cyfleoedd i gymryd rhan ac i ddefnyddio cyfleusterau.
- Marchnata - Mae dwy elfen, sef ymchwil i'r farchnad ac ymgyrchoedd hyrwyddo. Rhaid felly wrth broffil o'r bobl anabl sy'n cymryd rhan ac o FSAD. Cafodd Ymgyrch Farchnata Genedlaethol ei lansio sy'n canolbwyntio ar gampau yn hytrach nag anabledd yr unigolyn, yn ogystal ag ar greu cenedl iachach.

3.3 O ran helpu'r athletwyr gorau, gwnaed y canlynol:

- Gwasanaethau Cefnogi Athletwyr - roedd FSAD yn awyddus bod athletwyr yn dysgu am wyddor chwaraeon yn ogystal ag am ddeieteg. Cwmni o Gaerdydd sy'n darparu hyn ar hyn o bryd.
- Cronfa Cynnal Athletwyr Talentog - mae FSAD yn awyddus bod y rheini sy'n derbyn Lwfans Byw'r Anabl ond sydd ddim yn ddigon da i gael arian Elite Cymru, yn cael cymorth ariannol i wireddu eu potensial.
- Rheoli Digwyddiadau - roedd angen trefnu digwyddiadau'n well, ar lefel y DU a rhyngwladol, gan

nad yw carfannau'n cael gwybod bob tro am ddigwyddiadau'n ddigon cyflym ac mae hynny'n rhoi pwysau ar systemau.

- Gwersylloedd perfformio - i ddod ag athletwyr elite a thalentog ynghyd.
- Cystadlaethau lleol ledled Cymru i roi cyfle i athletwyr ddechrau dringo'r ysgol berfformio.

3.4 Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, cafodd y pwyntiau a ganlyn eu gwneud:

- Er bod CChC yn gefnogol iawn yn ariannol, ni ddylai FSAD orddibynnu arnynt, er ei bod yn anos i'r Ffederasiwn godi arian nag i gymdeithasau pobl abl. Mae cwmni o Gaerdydd wedi cytuno i roi £50,000 o nawdd dros y 2 flynedd nesaf. Maent yn darparu gwasanaethau i chwaraewyr anabl gan ddod felly â buddiannau i ddwy ochr y bartneriaeth.
- Mae FSAD yn datblygu gwefan i ledaenu gwybodaeth. Roedd am greu partneriaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r sector addysg er mwyn ei helpu i chwilio am nawdd allanol.
- Roedd yr awdurdod lleol yn gefnogol iawn a gobeithiwyd y byddai pob awdurdod lleol yn cefnogi'r cynllun yn yr un ffordd.
- Gallai Llywodraeth y Cynulliad helpu FSAD i godi proffil chwaraeon pobl anabl ar lefel y gymuned ac ar lefel y goreuon. Gallai'r Llywodraeth hefyd helpu FSAD i feithrin y cysylltiadau iawn â'r byrddau iechyd newydd. Gallai FSAD elwa o gael cymorth gan ELWa i hyfforddi gwirfoddolwyr, er y byddai angen codi arian ar gyfer hynny.
- Mae trafnidiaeth yn broblem i bobl anabl ym mhob maes, nid chwaraeon yn unig. Mae angen cynnal archwiliad i weld pa drafnidiaeth gymunedol eraill sydd ar gael.
- Mae'n hanfodol bod Chwaraeon Anabledd Cymru yn cael sylw da gan y cyfryngau. Mae gan DSC staff penodol i weithio gyda'r cyfryngau. Roedd yn well gan FSAD geisio am nawdd mewn ffordd strategol â ffocws, yn hytrach na cheisio nawdd ar gyfer digwyddiadau bob yn un.
- Bydd yr ymchwil fydd yn cael ei chynnal dros y 2 flynedd nesaf yn dangos i FSAD ba mor lwyddiannus yw ei gynlluniau.

<u>Eitem 4: Adolygiad o'r Polisi Chwaraeon: Cyngor Celfyddydau Cymru</u>

CC-01-03 (p3)

Cyflwynwyr: Huw Jones, Cyfarwyddwr Cyngor Chwaraeon Cymru, Gareth Davies Cadeirydd Cyngor Chwaraeon Cymru. Gweler Atodiad C am gopi o'r cyflwyniad.

4.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae 57% o boblogaeth Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon, yn rheolaidd neu'n achlysurol. Mae hynny'n gynnydd o 2% ar 2 flynedd yn ôl. Mae'r lefelau cymryd rhan yn uwch yng Ngheredigion a'r Gogledd nag yng nghymoedd y de. Iechyd gwell yw mantais fwyaf cymryd rhan. Amcangyfrifir bod 30% o glefydau'r galon yn digwydd oherwydd diffyg ymarfer corff ac mae perthynas glos rhwng segurdod a chyfraddau marwolaeth. Un o fanteision eraill chwaraeon yw cynhwysiant cymdeithasol. Cynllun wedi'i ariannu gan y loteri oedd y cynllun Social Inclusion in Sport i gefnogi cymunedau.

4.2 Mae CChC yn sylweddoli nad yw'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhai generig a'u bod yn amrywio o le i le. Mae yna rif y gwlith o rwystrau. Ceir crynodeb ohonynt isod:

- Amser/Ymrwymiad/Teulu - yn arbennig o berthnasol i fenywod sydd ar y cyfan â llai o amser hamdden na dynion.
- Gwahaniaethau diwylliannol/agweddau at chwaraeon.
- Cydraddoleb y rhywiau - nodwyd bod canran uwch o fenywod y Ffindir yn cymryd rhan nag yn y DU - mae cyfleusterau gofal plant yn well yn y Ffindir ac mae gan fenywod fwy o bwer ariannol.
- Gweithgareddau eraill - yn enwedig ymhlith pobl ifanc sydd â dewis ehangach o bethau i'w gwneud heddiw nag yn y gorffennol.
- Agweddau ysgolion at chwaraeon - nid yw pob ysgol yn rhoi pwyslais ar chwaraeon, ac nid yw plant felly yn cael yr un cyfleoedd.
- Rôl-fodelau - diffyg rôl-fodelau i fenywod a merched. Hwn yn fater y mae CChC yn ymchwilio iddo. Angen mwy o rôl-fodelau, fel Tanni Grey-Thompson.
- Diogelwch personol/camdriniaeth - yn enwedig o ran menywod a phlant.
- Agweddau rhieni - os oes gan rieni agwedd iach at chwaraeon, bydd y plant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae agweddau teuluoedd yn bwysig iawn, gan i ymchwil ddangos bod llawer i deulu'n teimlo'i bod yn fwy derbyniol bod bechgyn yn cymryd rhan na merched. Mae cynlluniau yn eu lle i geisio trechu hyn ac mae pethau'n gwella.
- Dylid rhoi mwy o sylw i chwaraeon menywod yn y cyfryngau i'w hannog i gymryd rhan.
- Cyfleusterau/costau/trafnidiaeth - maent yn amrywio o le i le, gan ddibynnu ar yr awdurdod lleol. Mae CChC yn ystyried system "feincnodi" i gydlynnu awdurdodau lleol.
- Prinder hyfforddwyr/gwirfoddolwyr - oherwydd pryderon am oblygiadau cyfreithiol.
- Strwythurau cystadlaethau
- Profiadau negyddol/positif - mae'r rhain yn dylanwadu ar berson sy'n ystyried cymryd rhan mewn chwaraeon.

3. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud:

- Mae'r lefelau cymryd rhan gwahanol rhwng bechgyn a merched yn fater hanesyddol a diwylliannol. Mae yna gynghreiriau i'r campau mae bechgyn yn cymryd rhan ynddyn nhw ond ddim cymaint i'r merched. Rhaid gwneud mwy i gael y cyfryngau i roi mwy o sylw i chwaraeon merched er mwyn ennyn diddordeb menywod a merched.
- Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd dair blynedd yn ôl i ba ardaloedd sydd wedi cael arian y loteri, nid yw ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi cael rhyw lawer iawn o arian. Mae gwneud cais am arian y loteri yn dreth ar amser a theimlir y gallai'r system dorri calonnau darpar geiswyr. Dylid targedu ardaloedd difreintiedig i greu cynlluniau cymunedol sy'n defnyddio arian y loteri.
- Mae rhai unigolion tan anfantais am eu bod yn byw yn yr ardal anghywir. Awgrymwyd bod Canolfannau Rhagoriaeth yn cael eu sefydlu yn y rhanbarthau a bod mwy o hyfforddiant yn cael ei roi yn lleol. Roedd CChC wedi derbyn £1/4m yn ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad i roi'r rhaglen hon ar waith.

Pwyntiau gweithredu: Bydd CChC yn ysgrifennu at Lywodraeth y Cynulliad i roi ffigurau manylach am lefelau cymryd rhan ym mhob awdurdod lleol.

<u>Eitem 5: Blaen raglen waith</u>

CC-01-03 (p4)

5.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddweud a oedd ganddynt unrhyw sylwadau am y Flaen raglen waith. Cafodd y pwyntiau canlynol eu codi:

- Ni fydd papur safbwynt y Gweinidog ar gyfer 22ain Ionawr 2003 ar gael. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog baratoi papur i'r Pwyllgor ar bolisïau a gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig unrhyw bwyntiau nad yw'r CChC eisoes wedi'u gwneud. Cytunodd y Gweinidog i wneud hyn.

- Mynegwyd pryderon ynghylch y ddeddfwriaeth ar gynnal digwyddiadau diwylliannol mewn capeli ac eglwysi.
- Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer yr Arolwg o Wyliau wedi'i rhoi ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru.

- Bwriad y "sesiynau cwmpasu" diwylliant Eingl-Gymreig oedd llunio cylch gwaith drafft ar gyfer cynnal arolwg posibl yn y dyfodol. Mater i'r pwyllgor olynnu i'w ystyried yw hwn, wedi'r etholiadau.
- Awgrymwyd cerddoriaeth i bobl ifanc fel pwnc trafod posibl ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

- Oherwydd yr holl amser a dreuliwyd eisoes ar yr iaith Gymraeg, teimlwyd y byddai papur gwybodaeth ar ddyraniadau ariannu manwl 2003-2004 yn ddigon ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 26ain Mawrth 2003.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

CC-21-02 (min), CC 18-02 (min)

6.1 Gofynnwyd bod pwynt Dafydd Wigley am swm y deunydd a roddir i aelodau'r Pwyllgor ei ddarllen yn cael ei gynnwys yng nghofnodion 18fed Rhagfyr 2002.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2003